**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LG/3908/21

Paul Davies AS,
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

25 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r holl awdurdodau polisi pysgodfeydd (FPAs) eraill yn y DU i ddatblygu Cyd-ddatganiad drafft ar Bysgodfeydd. Mae angen cyhoeddi Cyd-ddatganiad o fewn dwy flynedd ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) – sef erbyn 23 Tachwedd 2022. Rhaid i'r Cyd-ddatganiad:

- nodi polisïau'r FPAs ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at cyflawni'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd a restrir yn y Ddeddf;
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut y bydd yr FPAs am ddefnyddio cynlluniau rheoli pysgodfeydd i gyflawni, neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd hynny; a
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r amcanion ar gyfer pysgodfeydd wedi'u dehongli a'u cymhwyso wrth lunio'r polisïau a'r cynigion hynny.

Mae paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn gofyn bod pob FPA yn cyflwyno drafft ymgynghori o'r Cyd-ddatganiad gerbron ei Senedd ac yn pennu cyfnod ar gyfer craffu arno.

Byddwch ymwybodol mai fy mwriad yw cyflwyno drafft ymgynghori o'r Cyd-ddatganiad gerbron Senedd Cymru ar 10 Ionawr 2022. Bydd hynny'n digwydd yr un pryd ym mhob Deddfwrfa arall yn y DU. Bydd y Cyd-ddatganiad yn destun ymgynghoriad cyhoeddus wedyn o 11 Ionawr tan 5 Ebrill 2022.

Rwy'n cynnig cyfnod craffu i'r Senedd o 11 Ionawr tan 18 Chwefror. Cynigir cyfnod craffu tebyg ar gyfer pob Deddfwrfa arall yn y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n deall mai mater i chi yw penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r craffu hwnnw. Byddaf ar gael i drafod y dogfennau hyn gyda chi yn y Flwyddyn Newydd.

Gan obeithio'ch bod wedi cael yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch helpu i drefnu'ch rhaglen waith.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**